

Credai Llywodraeth Cymru taw “Talking is what we need to do and I will learn it all from you” (Llywodraeth Cymru, 2015). Gwelwyd wrth y geiriau uchod os oes prinder o iaith yn cael ei drosglwyddo i'r plentyn nid oes datblygiad ar ei iaith a llefaredd. Chytunai Agosto (2016) a hyn a dywedwyd wrth i blant fod yn agored i storïau ac iaith yn ddyddiol dywedai byddai hyn yn cael effaith cadarnhaol ar iaith a llythrennedd plentyn. Awgrymai fod adrodd storïau yn fuddiol iawn i ddatblygiad plentyn, a bod angen i blant fod yn agored i wahanol fathau o adrodd storïau er mwyn gallu ehangu ar ddatblygiad gwybyddol ac i feddwl yn feirniadol. Cyfunwyd hyn gyda Chwricwlwm i Gymru yn ôl Llywodraeth Cymru (2019a) dywedwyd fod gwrandio ar lenyddiaeth yn ehangu ar orwelion plant a bod unrhyw fath o drosglwyddo iaith yn ysbrydoli ac ysgogi plentyn er mwyn datblygu sgiliau iaith a chyfathrebu.

Gwelwyd yn y stori draddodiadol fod yr ymarferydd yn gofyn cwestiynau sydd yn wahanol iawn i'r stori ddigidol, nad oedd cwestiynau yn cael ei ofyn. Dywedai Careforkids.co.au (2019) fod gofyn cwestiynau yn fuddiol iawn i ddatblygu sgiliau siarad, ysgrifennu a darllen plant a fod angen i'r oedolyn i fynd ati i herio plant gyda chwestiynau syml a chwestiynau caled. Cytunai Wilkinson (2019) gyda'r cysyniad fod angen i oedolion i sgwrsio gyda phlant wrth ddarllen stori. Awgrymai fod sgwrs gyda chwestiynau agored yn rhoi'r cyfleoedd yma i'r plant i ddysgu am iaith ac i gysylltu gyda gwybodaeth am y byd, sydd yna yn ehangu ar ddealltwriaeth a datblygiad iaith a lleferydd. Byddai hyn yn awgrymu fod angen yn ôl Wilkinson (2019) i'r ymarferydd yn y gweithgaredd traddodiadol a digidol i fynd ati i drafod y stori gyda'r gynulleidfa, gwelwyd ei fod yn fuddiol i ofyn cwestiynau neu gynnal sgwrs tra yn adrodd storïau.

Cytunai Lucarevschi (2016) a gwelwyd er bod yr ymarferydd yn gofyn cwestiynau yng nghanol y stori draddodiadol, nad oedd unrhyw gwestiynau yn cael ei ofyn ar ddiwedd y stori. Awgrymai fod gofyn y cwestiynau neu i adael y plant i allu disgrifio'r hyn y teimlwyd wrth wrando ar y stori, mae hyn yn rhoi cyfleoedd i ddenu hyder drwy drosglwyddo ei iaith a'i lleferydd. Gwelwyd wrth i'r storïau cael ei ddarllen yn gyson codwyd hyder y plant i fynd ati i berfformio ac i ddweud ei storïau ei hunain. Teimlwyd yn gryf fod hyn yn hybu'r iaith wrth i'r ymarferydd ofyn cwestiynau, a bod hyn yn ehangu ar ei iaith yn ymarferol ac yn annog trafodaeth am y stori wrth trafod, ail edrych ac ailadrodd geiriau. Cytunwyd Brodin a Renblad (2020) a hyn a phwysleisiwyd ar y pwysigrwydd o ofyn cwestiynau a thrafod y stori ar ôl gorffen darllen, a bod hyn yn cefnogi'r sgiliau iaith a lleferydd ym mhlant dan oed ysgol. Dywedant fod yn rhaid i'r oedolyn fod yn ymwybodol ac yn brofiadol wrth ddarllen y

storïau, a chredai os nad yw'r cwestiynau hanfodol yn cael ei ofyn a'r drafodaeth holl bwysig am ddigwyddiadau'r stori a'r lluniau yn y stori, ni fydd yna ddatblygiad geirfa yn digwydd. Felly gwelwyd pwysigrwydd mawr i gefnogi ac annog sgwrs er mwyn cael canlyniadau da i ehangu ar ei iaith a lleferydd.

Fodd bynnag ni ofynnwyd cwestiynau yn y gweithgaredd digidol, gwelwyd fod y gweithgaredd wedi gorffen yn sydyn, ond yn ôl ymchwil Gulchekhra (2015) astudiwyd plant cyn ac ar ôl amser stori a gwelwyd gwahaniaeth enfawr rhwng iaith a gwybodaeth y plant. Gwelwyd ar ôl amser stori ehangwyd geirfa a gwybodaeth y plant am y stori a chredai Gulchekhra (2015) fod cael stori yn weledol yn ddigidol yn rhoi effaith cadarnhaol ar ddeallusrwydd ar ddatblygiad iaith a lleferydd plant.

Sydd yn symud ymlaen i ganolbwyntio a gwerthuso y ddau weithgaredd traddodiadol a digidol gwelwyd yn glir yn y ddau fod yr ymarferydd yn defnyddio lleisiau gwahanol i'r cymeriadau. Gwelwyd fod lleisiau main a thawel gan y moch bach a lleisiau cryf a chrac gan y blaidd mawr gas. Yn ôl Westlund *et al.* (2017) cyflwynwyd dau wahanol fath o drosglwyddo storïau, ddefnyddiwyd lleisiau electronig robot, un yn fynegiannol ac y llall yn wastad. Wrth wneud dau wahanol amser stori gwelwyd fod y ffordd fynegiannol yn fwy effeithiol er mwyn ehangu ar iaith y plant. Awgrymai wrth i blant wrando ar lais mynegiannol llawn nodweddion, gwelwyd roedd y fath yma yn effeithiol iawn ac roedd y plant yn canolbwyntio yn dda. Dadansoddwyd Westlund *et al.* (2017) fod y plant wedi ehangu ar ei eirfa ar draws yr wythnosau canlynol a awgrymai fod y plant i gyd yn cynnwys y plant ail iaith wedi dysgu yr iaith a'r wybodaeth wrth y robot mynegiannol. Felly gwelwyd pan mae'r ymarferydd yn defnyddio llais sydd yn fynegiannol fod hyn yn fuddiol iawn i blant i gofio, dysgu ac i ddatblygu ei ddatblygiad iaith a llythrennedd wrth ddefnyddio digidol i drosglwyddo yr iaith yma.

Cefnogwyd hyn gan Donaldson (2015) a Llywodraeth Cymru (2019b) wrth ddefnyddio digidol fel rhan o ddysgu yn y dosbarthiadau mae hyn yn rhoi datblygiad cadarnhaol er mwyn ehangu ar ei lleferydd digidol. Tebyg iawn i Y Goron (2020) ac awgrymai fod angen i'r plant i ymgysgu a theclynnau a mathau gwahanol o ddefnyddio'r digidol, er mwyn anelu at y camau cynnydd priodol i fwrw y meysydd dysgu yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2021).

Cytunai Heuvel *et al.* (2019) gyda Donaldson (2015) fod yna fuddion i e-lyfrau i ddatblygiad sgiliau iaith gynnar plentyn, a bod plant yn ymwybodol ac gyda'r gallu i gofio geiriau

allweddol allan o stori ar-lein. Fodd bynnag dywedai Heuvel *et al.* (2019) fod gormodedd o ddyfeisiau digidol yn achosi difrod i iaith a llythrennedd plant. Hynny yw dywedai fod plant sydd yn gwario oriau ar ddyfais ddigidol am amser hir yn amharu ar amser hanfodol un i un gyda rhiant a gwelwyd dyma ble mae'r iaith yn cael ei golli. Cefnogwyd hyn gan theori Vygotsky yn ôl Brodin a Renblad (2020) fod rôl yr oedolyn yn hanfodol ym mywydau'r plant er mwyn ehangu ar ei sgiliau llythrennedd, a bod yr iaith yn allweddol i ddatblygiad gwybyddol plentyn drwy ddysgu yn gymdeithasol a ddiwylliannol. Sydd yn cyferbynnu gyda theori Piaget yn ôl Brodin a Renblad (2020) fod cael profiadau cadarnhaol a synhwyraidd yn hanfodol i ddatblygiad gwybyddol plentyn a bod y plentyn yn rhyngweithio gyda'r amgylchedd o'i amgylch. Gwelwyd wrth uno'r ddwy theori yma gallwn greu unigolion sydd ag iaith a llythrennedd cadarnhaol o dda wrth ddysgu wrth unigolion eraill ac wrth yr amgylchedd.

Gwelwyd yn y ddau weithgaredd digidol a traddodiadol bod yr ymarferydd yn defnyddio lleisiau gwahanol i drosglwyddo mwynhad a deallusrwydd o'r stori sydd yn debyg iawn i'r hyn a dywedai BBC (2013). Dywedwyd nad oes un ffordd uniongyrchol o ddysgu plant a bod pob un plentyn yn dysgu yn wahanol, credai wrth wneud y darllen mor hwylus â phosib ac wrth ddefnyddio gwahanol synau dyma ble gafaelwyd sylw'r plant er mwyn hyrwyddo a throsglwyddo llefaredd newydd. I grynhoi nad oes wahaniaeth rhwng y stori draddodiadol a digidol ond mae yna bwyslais fod angen defnyddio lleisiau gwahanol i gael caffael ar yr unigolion er mwyn iddynt alluogi i ailadrodd y geiriau allweddol yma er mwyn ehangu ar ei geirfa.

Pwnc arall gwelwyd wrth werthuso'r ddau weithgaredd oedd y defnydd o bwysleisio ar eiriau allweddol yn y stori yn enwedig yn y stori draddodiadol. Gwelwyd fod yna lawer mwy o eirfa yn y stori yma, a defnyddiwyd ansoddeiriau, onomatopeia er mwyn drosglwyddo emosiwn a theimladau'r cymeriadau. Roedd hyn yn wahanol i'r stori ddigidol, nad oedd yna cymaint o eiriau a oedd yn disgrifio, roedd y stori ddigidol yn syml ac roedd llai o eirfa. Gwelwyd LitCharts (2021) fod pwysigrwydd o ddefnyddio geirfa onomatopeia er mwyn datblygu iaith a lleferydd yn y blynyddoedd cynnar, byddai modd i ehangu ar hyn ac ychwanegu geiriau allweddol er mwyn hyrwyddo geirfa fwy dramatig i'r storiâu er mwyn tynnu sylw'r gynulleidfa. Dywedai Laing (2019) fod canran mawr o iaith babanod llawn geiriau onomatopeia ac yn y blynyddoedd cyntaf mae'r plentyn yn agored i ddysgu'r synau yma er mwyn datblygu ei geirfa. Er nad yw'r geiriau yn eiriau cywir, dywedwyd fod y geiriau yma yn rhan hanfodol o ddatblygiad iaith y plentyn a dyma un o'r prosesau cyntaf o ddysgu

iaith. Credai Laing (2019) fod defnyddio onomatopeia yn trosglwyddo ystyr y gair yn ddyfnach ac wrth gyfuno'r eirfa yma gyda lleisiau cryf llawn emosiynau byddai hyn yn trosglwyddo gwybodaeth ehangach i'r gynulleidfa.

Yn ôl Healthline (2019) dywedai fod theori Chomsky yn ymwneud a datblygiad iaith yn ramadegol yn gynhenid, a phwysleisiwyd fod yr iaith yma yn rhan naturiol yn yr ymennydd a bod iaith yn rhywbeth sydd yn hynod o naturiol i'r corff dynol. Chredai Chomsky yn ôl Healthline (2019) fod iaith yn rhywbeth sydd yn cael ei ddatblygu drwy natur yn hytrach nag meithrin iaith. Chytuna Davis (2019) a Healthline (2019) fod Chomsky yn credu yn gryf fod iaith yn datblygu a defnyddiwyd y gair cynhenid i drosglwyddo'r natur. Dywedwyd fod rheolau iaith yn cael ei dylanwadu drwy ddysgu a phrofiad ac mae iaith ei hunain yn bodoli gyda dylanwadau amgylcheddol. Fodd bynnag anghytunwyd Davis (2019) a hyn a chredai fod plentyn angen dysgu'r bwriad cyfathrebol yn gyntaf cyn bod plentyn gyda'r gallu i fynd ati i ddefnyddio iaith. Cefnogwyd y fath yma o ddysgu gan yr oedolyn a dywedwyd fod angen i oedolyn rhoi mewnbwn wrth ailadrodd y geiriau mewn brawddegau er mwyn i'r plentyn deall ystyr y gair. Yn gryno yn ôl Ghalebi a Sadighi (2015) dywedai y damcaniaethwr Tomasello fod angen ymrwymiad oedolion er mwyn i'r plentyn gallu ehangu ar iaith a llefaredd a sut i ddeall geirfa yn gywir.

Gwelwyd wrth bwysleisio ar eiriau megis mawr, hir ac i lawr, dywedai Llywodraeth Cymru (2019a) fod iaith a lleferydd unigolyn yn dechrau ac yn datblygu drwy gymdeithasu, wrth wrando, darllen a gweld yr ymarferydd. Dywedai fod bwyslais enfawr ar hyn er mwyn i'r unigolion i ddatblygu ei ddeallusrwydd ac empathi yn ei bywydau. Pwysleisiwyd fod y cwricwlwm newydd i Gymru, yn ôl Llywodraeth Cymru (2021) yn rhoi'r cyfleoedd yma o ddefnyddio iaith a lleferydd drwy gydol y dydd yn y dosbarthiadau a dywedwyd fod angen y cyfleoedd yma o wrando ar iaith a geirfa newydd yn rhoi effaith mawr wrth ehangu ar eirfa'r unigolyn. Credwyd Llywodraeth Cymru (2019a) fod y defnydd o wrando ar storiâu, caneuon a sgysiau yn hanfodol er mwyn datblygu iaith a lleferydd yr unigolion.

Tebyg iawn i lyfr gan Novak (2014) sydd yn llawn geiriau ond does dim un llun yn y llyfr, gwelwyd fod hyn yn wahanol iawn i'r storiâu yn y gweithgaredd traddodiadol a digidol. Yn hytrach mae Novak yn cyflwyno llyfr sydd llawn geirfa, anogwyd yr eirfa i gael ei adrodd mewn gwahanol synau er mwyn denu'r gynulleidfa i wrando ac i ymgymryd yn yr hwyl. Gwelwyd yn glir yn y fideo fod y storiwr yn denu'r gynulleidfa i mewn i wrando yn astud ar y geiriau ar lefaredd yn unig a gwelwyd fod hyn yn ehangu ar ddealltwriaeth yr eirfa. Fodd

bynag anghytuna Balacazar (2019) a hyn a dywedai fod defnyddio lluniau yn hanfodol ar gyfer datblygiad iaith a llefaredd plentyn. Credai fod plant yn dysgu drwy gyfuno y llun gyda'r eirfa a dyma sut datblygwyd geirfa hen a newydd. Gwelwyd hyn yn y storïau traddodiadol a storïau digidol fod gyfuniad o eiriau a lluniau yn cytuno gyda Balacazar (2019), dywedwyd fod y fath yma o adrodd storïau yn fuddiol i ddatblygiad y plentyn.

I grynhoi gwelwyd yn glir fod yna fuddion i wahanol fathau o adrodd storïau, gwelwyd hyn yn ôl Wilkinson (2019) fod angen i blant fod yn agored i sgysiau a chwestiynau pen agored a bod hyn yn datblygu iaith a lleferydd. Y pŵer o drosglwyddo iaith yn glywedol ac yn gweledol yn ddyddiol, a fod hyn yn rhoi cyfleoedd enfawr i ddatblygiad iaith a lleferydd wrth ehangu ar eirfa y plentyn. Gwelwyd fod rhaid hyrwyddo'r iaith yn ddyddiol a bod pwysigrwydd bod y plentyn yn ymgymryd ag yn chwilfrydig wrth wrando ar y geiriau allweddol. Gwelwyd fod buddion fod y storïau yn cael ei adrodd mewn ffurfiau gwahanol ar draws y dydd boed yn draddodiadol neu yn ddigidol. Awgrymai Llywodraeth Cymru (2019b) fod bywydau plant yn bresennol yn naturiol yn ymwneud ar ddigidol a bod tynnu y digidol i ffwrdd o'r plentyn yn gallu gwneud niwed i ddatblygiad y plentyn. Dywedai Y Goron (2020) fod angen i'r plant i anelu at y camau cynnydd sydd yn ymwneud a'r digidol er mwyn defnyddio'r dyfeisiau yma yn ddiogel. Casglwyd gwybodaeth fod buddion i bob math o adrodd straeon boed yn draddodiadol neu yn ddigidol. Pwysleisiwyd fod angen rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i drosglwyddo y iaith i'r plant sydd yn bwysig er mwyn rhoi effaith cadarnhaol ar iaith a lleferydd y plentyn, a gwelwyd fod lle i'r ddau yn ddyfodol y plant.

Cyfeirnod

Agosto, D. (2016) 'Why Storytelling Matters', *Unveiling the Literacy Benefits of Storytelling*, Ar Gael: <https://journals.ala.org/index.php/cal/article/viewFile/5990/7634> (Gwelwyd: 15 o Hydref 2021).

Balcazar, S. (2019) *How picture books help kids develop literacy skills*, [blog] Ar Gael: [readingpartners.org/blog/picture-ooks-develop-literacy-skills/](https://readingpartners.org/blog/picture-books-develop-literacy-skills/) (Gwelwyd:19 o Hydref 2021).

BBC (2013) *Pupils learn to read 'in many ways', sayd laureate*, Ar Gael: <https://www.bbc.co.uk/news/education-20944072> (Gwelwyd: 19 o Hydref 2021).

Brodin, J. a Renblad, K. (2020) 'Improvement of preschool children's speech and language skills', *Early Child Development and Care*, 190:14, 2205-2213, DOI: 10.1080/03004430.2018.1564917, Ar Gael: <https://doi.org/10.1080/03004430.2018.1564917> (Gwelwyd: 16 o Hydref 2021).

Careforkids.co.au (2019) *THE IMPORTANCE OF QUESTIONS DURING STORY TIME*, Ar Gael: <https://www.careforkids.com.au/child-care-articles/article/338/the-importance-of-questions-during-story-time> (Gwelwyd: 20 o Hydref 2021).

Davis, B. (2019) *Which is an innate language facilitator that all humans are born with?*, Ar Gael: https://www.mvorganizing.org/which-is-an-innate-language-facilitator-that-all-humans-are-born-with/#Does_Chomsky_believe_language_is_innate (Gwelwyd: 20 o Hydref 2021).

Donaldson, G. (2015) *Successful futures*, Ar Gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf> (Gwelwyd: 20 o Hydref 2021).

Ghalebi, R. a Sadighi, F. (2015) 'The Usage-based Theory of Language Acquisition A review of Major Issues', *Journal of Applied Linguistics and Language Research*, Volume 2, Issue 6, tud. 190-195, Ar Gael: <http://www.jallr.com/index.php/JALLR/article/viewFile/138/pdf138> (Gwelwyd: 20 o Hydref 2021).

Gulchekhra, R. (2015) 'Virtual Storytimes: Implementing Dialogic Reading into Children's Digital Libraries', *Master thesis International Master in Digital Library Learning*, Ar Gael: [Gulchekhra.pdf \(oslomet.no\)](#) (Gwelwyd: 20 o Hydref 2021).

Healthline (2019) *Born This Way: Chomsky's Theory Explains Why We're So Good at Acquiring Language*, Ar Gael: <https://www.healthline.com/health/speech-therapy#duration> (Gwelwyd: 20 Hydref 2021).

Heuvel, M.V.D *et al* (2019) 'Mobile Media Device Use is Associated with Expressive Language Delay in 18-Month-Old Children', *Journal of Developmental and Behavioral Pediatrics*, 40 (2), tud. 99-104, Ar Gael: <https://europepmc.org/article/PMC/PMC6382042> (Gwelwyd: 19 o Hydref 2021).

Laing, C. (2019) 'A role for onomatopoeia in early language: evidence from phonological development', *Language and Cognition*, tud. 173-187, Ar Gael: orca.cardiff.ac.uk/117190/1/Laing_onomatopoeia%20review_revisedOct18.pdf (Gwelwyd: 19 o Hydref 2021).

Lewis, S. (2016) *Y Tri Mochyn Bach*, Llandysul: Wasg Gomer.

LitCharts (2021) *Onomatopoeia Definition*, Ar Gael: <https://www.litcharts.com/literary-devices-and-terms/onomatopoeia#:~:text=Because%20onomatopoeia%20can%20make%20language%20so%20expressive%2C%20impactful%2C,life%2C%20as%20you%E2%80%99ll%20see%20in%20the%20examples%20below> (Gwelwyd: 21 o Hydref 2021).

Lucarevski, C.R. (2016) 'The role of storytelling in language learning: A literature review', *Working Papers of the Linguistic Circle of the University of Victoria*, 26(1), tud. 24-44, Ar Gael: [15309-Article-Text-14866-1-10-20160902.pdf](https://www.linguisticcircle.ca/working-papers/2016/09/02/15309-Article-Text-14866-1-10-20160902.pdf) (Gwelwyd: 20 o Hydref 2021).

Llywodraeth Cymru (2015) *Stages of Speech and Language Development*, Ar Gael: <https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2019-05/stages-speech-and-language-en.pdf> (Gwelwyd: 18 o Hydref 2021).

Llywodraeth Cymru (2019a) *Languages, Literacy and Communication*, Ar Gael: <https://dera.ioe.ac.uk/33314/6/draft-statutory-guidance-languages-literacy-and-communication.pdf> (Gwelwyd: 10 o Hydref 2021).

Llywodraeth Cymru (2019b) *Science and Technology*, Ar Gael: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/science-and-technology/> (Gwelwyd: 15 o Hydref 2021).

Llywodraeth Cymru (2021) *Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru*, Ar Gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad/> (Gwelwyd: 9 o Hydref 2021).

Novak, B.J. (2014) *B.J. Novak reads from The Book With No Pictures*, [fideo], Ar Gael: <https://www.youtube.com/watch?v=EZwY5BeYcyo> (Gwelwyd: 11 o Hydref 2021).

Twinkl (dim dyddiad) *Pwerbwynt y Tri Mochyn Bach*, Ar Gael: <https://www.twinkl.co.uk/resource/wl-t-t-5080-pwerbwynt-stori-y-tri-mochyn-bach> (Gwelwyd: 5 o Hydref 2021).

Westlund, J.M.K *et al* (2017) 'Flat vs. Expressive Storytelling: Young Children's Learning and Retention of a Social Robot's Narrative', *Front Hum Neurosci*, 7;11:295, doi: 10.3389/fnhum.2017.00295, PMID: 28638330, PMCID: PMC5461341, Ar Gael: <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/28638330/> (Gwelwyd: 20 o Hydref 2021).

Wilkinson, K. (2019) *What makes a good storyteller?*, Ar Gael: [What makes a good storyteller? | BookTrust](#) (Gwelwyd: 18 o Hydref 2021).

Y Goron (2020) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*, Ar Gael: <https://hwb.gov.wales/api/storage/84f561c2-83b4-4bac-b365-d992718aea24/dcfw40620.pdf> (Gwelwyd: 15 o Hydref 2021).